

ST: 1800444

Cefnogi cynnydd disgyblion: dadansoddiad manwl o ddatblygiad cyfannol un plentyn gan gyfiawnhau'r camau dysgu nesaf.

Cyflwyniad

Prif ffocws yr aseiniad hwn yw dadansoddi datblygiad cyfannol un dysgwr gan ddefnyddio data a gasglwyd yn ystod fy mhrofiad addysgu proffesiynol.

Yng nghyd-destun hyn, dadansoddir data a gasglwyd o'r dysgwr targed a adlewyrchir ar farn gyfannol am ddysgu megis model ASK Nottingham (2013). Canolbwyntiaf yn benodol ar gamau dysgu nesaf i'r dysgwr a thrafodir cyfyngiadau posibl a safbwyntiau amgen.

Cynhaliwyd yr ymchwil mewn ysgol fawr ym mhentref yn Ne Cymru sydd â chyfanswm o 443 o blant rhwng tair ac un ar ddeg mlwydd oed ar y gofrestr (ESTYN, 2016). Daw 2% o ddisgyblion yr ysgol o gartrefi lle y siaredir y Gymreig ac ychydig iawn o ddisgyblion yr ysgol sydd â'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt (ESTYN, 2016).

Arsylwais ar ddysgwr saith mlwydd oed ym mlwyddyn tri am gyfnod o bedwar wythnos.

Dewiswyd y dysgwr targed hwn gan ei fod yn ddisgybl sydd yn serennu ym mhob maes dysgu, fodd bynnag, maent yn ddysgwr dihyder iawn.

Yn unol â chanllaw BERA (2018), fe fydd yr ysgol dan sylw a'r dysgwr a arsylwir yn aros yn anhysbys (BERA, 2018), cyfeirir at y dysgwr o fewn yr aseiniad fel dysgwr targed.

Casglu Data

Adnabyddir pwysigrwydd sicrhau cyfrinachedd llwyr a chydymffurfir â chanllaw BERA (2018) drwy ymatal rhag rhannu unrhyw ddata a gasglwyd tu allan i'r brifysgol. Yn ogystal, cydymffurfir a chanllaw foesegol y brifysgol drwy sicrhau caniatâd ysgrifenedig cyn cynnal yr ymchwil (Gweler Atodiad 1).

Yn dilyn adolygiad manwl o lenyddiaeth ynghylch casglu data, penderfynwyd defnyddio arsylwadau, samplau o waith arnodedig a chofnodion COG fel y dulliau ymchwil ar gyfer yr aseiniad hwn.

Canfuwyd y dull o arsylwi yn effeithiol oherwydd roedd cynnal arsylwadau rheolaidd wedi fy ngalluogi i greu trosolwg o'r dysgwr ac wedi fy nghaniatáu i ddod i adnabod y dysgwr targed yn weddol dda. Ategir hyn gan y DCSF (2009) sy'n nodi bod arsylwi yn rhan annatod o ryngweithiadau proffesiynol â phlant ac yn cynnig manteision i ymarferwyr, rhieni a phlant. Dywed y DCSF (2009) maent yn ffordd gadarnhaol o ymateb i anghenion pob plentyn, nid yn unig y rhai sy'n profi anawsterau ac yn allweddol i addysgu a dysgu effeithiol.

Cred Pugh (2001) bod cynnal arsylwadau yn hanfodol er mwyn sefydlu cynnydd dysgwr a wnaed eisoes ac i allu archwilio'r dyfodol. At hyn, nodir Pugh (2001) bod arsylwi yn ddull effeithiol er mwyn egluro lefelau perfformiad a sgiliau presennol disgybl a'u meistrolï. Mae arsylwi effeithiol yn llywio arfer yn fawr ac, yn y pen draw, yn helpu'r dysgwr, gan sicrhau bod y cynlluniau a'r ymyriadau sy'n dilyn wedi eu llywio drwy archwiliad o ystod o wybodaeth yn ymwneud â lefelau perfformiad presennol y plentyn ac ystyried yr holl ffactorau a allai cymhlethu neu wella cynnydd yn y dyfodol.

Yn ogystal, defnyddiwyd dull ysgrifenedig i asesu rhyngweithiau'r dysgwr targed gyda'i chyfoedion. Cred Pugh (2001) fod y dull yma o gofnodi data yn effeithiol gan ei fod yn ffordd agored o gofnodi arsylwadau ac yn gallu darparu nifer helaeth o wybodaeth eang. At hyn, mae'r dull yn darparu portread o blentyn ac yn darparu gwybodaeth fanwl am weithgaredd plentyn dros gyfnod parhaus. Fodd bynnag, dangosir ymchwil, gall y ffordd hon o gofnodi gwybodaeth bod yn oddrychol, gan ei fod yn amhosibl cofnodi popeth y mae plentyn yn ei wneud a'i ddweud wrth arsylwi arnynt. Ategir hyn gan fy nghanfyddiadau o gynnal arsylwadau fel dull ymchwil. Gwelir wrth arsylwi fod yn anodd cofnodi pob arsylwad defnyddiol yn fanwl ac roedd yn hawdd colli amseroedd allweddol.

Yn ychwanegol, casglwyd samplau o waith mathemateg a thema y dysgwr targed. Roedd y dull yma o gasglu data yn anodd gan fod yr ysgol yn ffrydio ar gyfer gwersi Mathemateg, Saesneg a Chymraeg ac o ganlyniad nid oedd yn bosib casglu gwaith neu arsylwadau ar gyfer y dysgwr targed yn y dosbarthiadau lle nad oeddwn yn ei dysgu hi. Drwy gasglu samplau o'i gwaith, gwelwyd pa lefel yr oedd y disgybl targed yn gweithio arni a pha feysydd yr oedd angen iddi ei gwella. Fodd bynnag, roedd yn anodd seilio fy nyfarniadau gan ddefnyddio samplau o waith gan mai ychydig iawn o waith a wnaethom mewn llyfrau gwaith ac yn aml roedd y dysgwr targed yn ffrydio neu yn absennol.

Yn ogystal, dadansoddwyd cofnodion COG a nodiadau dysgu'r dysgwr targed er mwyn asesu lefel presennol y dysgwr ac i weld pa feysydd yr oedd angen ei gwella. Roedd y dull hwn o gasglu data yn effeithiol gan fod y data eisoes ar gael, fodd bynnag, nid oedd nodiadau ar gael ar gyfer pob gwrs ac yn aml roedd y nodiadau yn fras.

Dadansoddi'r Dysgwr

Arsylwais ar ddysgwr saith mlwydd oed ym mlwyddyn tri am gyfnod o bedwar wythnos. Dewiswyd y dysgwr targed hwn gan ei fod yn ddisgybl sydd yn serennu ym mhob maes dysgu, fodd bynnag, maent yn ddysgwr dihyder iawn. Yn ystod y cyfnodau arsylwi, arsylwir ei bod yn gyndyn i gymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth a thrafodaethau grŵp ac yn aml yn ofni gofyn cwestiynau neu am gymorth. Credir y gallai hyn effeithio ar ddysgu'r disgybl a chred y byddai'n elwa yn fawr iawn o gymorth i wella ei hyder.

Yn ystod y cyfnod arsylwi a thrwy ddadansoddi gwaith y dysgwr, casglwyd data defnyddiol er mwyn creu trosolwg o'r dysgwr targed, fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n gyfyngedig gan roedd y disgybl yn absennol am gyfnodau yn ystod y cyfnod ymchwil.

Mathemateg

Canfuwyd y dull o gasglu samplau o waith yn effeithiol wrth ddadansoddi'r dysgwr targed yn y maes mathemateg. Yn ystod y cyfnod ymchwil nid oedd yn bosib cynnal unrhyw arsylwadau ar y dysgwr yn ystod gwersi mathemateg. O ganlyniad, daw'r data o lyfrau a chofnodion olrhain yn unig.

Dengys Atodiad 2 sylwad o wers a oedd yn seiliedig ar gynhwysedd. Nod y wers oedd deall ystyr cynhwysedd ac i allu darllen cyfyngau yn gywir ar jwg mesur. Seiliwyd y wers ar waith grwp a sicrheais i grwpio'r dysgwr gydag aelodau hyderus y dosbarth. Nid oedd y dysgwr wedi deall nod y wers ar ddechrau'r wers ac ond daeth i'm sylw hanner ffordd drwy'r wers pan euthum at fwrdd y dysgwr i wirio dealltwriaeth y disgyblion. Ymddangosodd y dysgwr yn drist ac yn ddihyder ac roedd yn gyndyn i ofyn am gymorth. Ategir hyn gan ymchwil a gynhaliwyd i edrych ar sut gall swildod effeithio ar gofyn cwestiynau a cheisio cymorth mewn addysg. Dengys yr ymchwil bod gofyn cwestiynau yn broblem enfawr i lawer o ddysgwyr ac maent yn aml yn osgoi cymryd rhan yn y mathau hyn o ryngweithio personol o ganlyniad i swildod (Rimmer, Good a Harris, 2011). Yn dilyn trafodaeth, llwyddodd y dysgwr i weithio o fewn grŵp i gwblhau'r tasgau i safon uchel (Gweler Atodiad 3).

Yn ogystal, casglwyd samplau o waith amser i gael gwell dealltwriaeth o allu'r dysgwr targed yn y maes mathemateg. Dengys y gwaith (Gweler Atodiad 4) bod y disgybl yn adnabod gwahaniaethau mewn amser ar gloc ac yn gallu troi eiliadau i funudau yn gywir.

Deallaf fod presenoldeb yn broblem i'r dysgwr targed ac felly seiliwyd fy nghanfyddiadau ar ddata o ddwy wers mathemateg yn unig. O ganlyniad, ni allaf wneud dyfarniad ar lefel presennol y dysgwr yn y maes mathemateg.

Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu – Cymraeg

Seiliwyd y data Iaith ar samplau o waith thema yn unig. O ganlyniad i system ffrydio'r ysgol dan sylw, nid oeddwn wedi addysgu'r dysgwr targed ar gyfer gwersi Saesneg neu Gymraeg.

Yn seiliedig ar ddata a gasglwyd o wersi thema, adnabyddir gall y dysgwr targed ffurfio llythrennau uchaf a llythrennau isaf yn annibynnol ac yn dangos ymwybyddiaeth gref o atalnodau llawn a bylchau rhwng geiriau (Gweler Atodiad 5). Yn ogystal, maent yn medru dechrau brawddegau mewn amrywiaeth o ffyrdd yn ei gwaith ac yn defnyddio cysyllteiriau wrth ysgrifennu. Fodd bynnag, mae'r dysgwr yn osgoi siarad ac ymateb i eraill yn ystod gweithgareddau grŵp ac yn gyndyn i ymuno â gweithgareddau grŵp a arweinir gan oedolion neu ddisgyblion.

Dengys cofnod olrhain o weithgaredd grŵp (Gweler Atodiad 6), diffyg ymrwymiad y dysgwr targed i'r wers o ganlyniad i ddiffyg hyder. Gwrthododd y dysgwr cymryd rhan yn y wers gan ei bod yn rhy swil i siarad o flaen grŵp o ddisgyblion. Er bod gan y dysgwr dealltwriaeth dda o wybodaeth a ddysgwyd yn ystod y wers, nid oedd yn bosib iddi gyflwyno'r wybodaeth i weddill y grŵp.

Yn debyg, ni allaf wneud dyfarniad dibynadwy ar lefel presennol y dysgwr yn y maes iaith, llythrennedd a chyfathrebu o ganlyniad i ddiffyg data. Fodd bynnag, credaf y bydd y dysgwr yn cyrraedd lefel 4 erbyn blwyddyn 6 os yw'n derbyn cefnogaeth i godi ei hunan-barch a'i hyder. Maent yn serennu yn wrth ysgrifennu ac yn dangos ymwybyddiaeth gref o atalnodi a gramadeg ond yn wan yn cydweithio a chyflwyno gwybodaeth ar lafar.

Datblygiad Personol a Chymdeithasol

Canfuwyd y dull o arsylwi a chreu cofnodion COG yn effeithiol wrth ddadansoddi datblygiad personol a chymdeithasol y dysgwr. Arsylwyd effaith diffyg hyder y dysgwr ar waith ac

ymrwymiad y dysgwr i dasgau yn ystod y cyfnod arsylwi. Dengys y dysgwr diffyg brwdfrydedd mewn gwaith grŵp a phartner ac roedd yn ymddangos yn hapusach i weithio'n annibynnol ym mhob gwers. Ategir hyn gan fodel ASK Nottigham (2013). Mae agweddau, sgiliau a gwybodaeth yn gydrannau hanfodol sydd eu hangen ar gyfer addysgu effeithiol. Fel y cyfryw, mae'r tair cydran hyn yn ffurfio'r model ASK. Cefnogwyd Beach (1974, Nodwyd yn Fitch a Semb, 1983) pwysigrwydd rôl athro i ddatblygu plentyn yn gyfannol a ddengys arsylwadau fideo o ddysgwyr a oedd yn gweithio mewn grwpiau bach fod sgiliau cyfathrebu aneffeithiol a diffyg dealltwriaeth yn ymyrryd ar ddysgu. Cefnogwyd hyn gan ddata a gasglwyd ar y dysgwr targed. Dangoswyd y canfyddiadau bod diffyg hyder y dysgwr wedi amharu ar ddysgu'r dysgwr ac ar allu'r disgybl i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau. At hyn, nododd McKnight (1972 Nodwyd yn Fitch a Semb, 1983) ymatebolrwydd athrawon, a ddiffiniodd fel cyfuniad o wrando gweithredol ac ymateb priodol, fel cydran bwysig o'r model ASK. Mae ymateb priodol yn cynnwys pryder yr athro/athrawes am ddwyochredd yn yr ystafell ddosbarth a bod yn sensitif i lafar myfyrwyr ac adborth di-eiriau yn ymwneud â'u dysgu. Mae'n cynnwys ymatebion athrawon fel annog a dilyn syniadau, codi cwestiynau sylweddol a all fod ag ystod o atebion derbyniol, effaith gadarnhaol, ac annog myfyrwyr i ofyn cwestiynau. Cred (McKnight, 1972, Nodwyd yn Fitch a Semb, 1983) fod ymatebolrwydd athrawon yn cynyddu cyfle'r dysgwyr i ddeall y cysyniadau sy'n cael eu trafod, sy'n debyg i'r cysyniad o "gyfle i ymateb" a gyflwynwyd gan Greenwood et al. (1983, Nodwyd yn Fitch a Semb, 1983).

Adnabyddir effaith diffyg data ar ddod i gasgliad cryf ar lefel presennol y dysgwr targed. O ganlyniad i ddiffyg presenoldeb a diffyg trafodaethau gyda'r dysgwr nid oes modd dod i gasgliad terfynol ar y dysgwr.

Cynnydd i'r Dyfodol

Dengys ymchwil gan (Rentfrow a De Vries, 2016), yn ogystal â sgiliau gwybyddol megis deallusrwydd neu gof da, bod sgiliau cymdeithasol neu anwybyddol fel dyheadau, hyder a phersonoliaeth yn gallu cael effaith bwysig ar lwyddiant gyrfa. Mae sgiliau bywyd hanfodol fel hyder, cymhelliant, gwydnwch a chyfathrebu yn gysylltiedig â gwell canlyniadau academiaidd a gwell rhagolygon yn y gweithle, ac mae pwyslais cynyddol ar eu gwerth, o ystyried tueddiadau'r farchnad lafur tuag at Awtomatiaeth (Cullinane, Montacute, 2017).

Seiliwyd y casgliadau ar ddata cyfyng o ganlyniad i ddiffyg presenoldeb. Er hyn, dengys y data patrwm yn ddatblygiad cymdeithasol y dysgwr. O ganlyniad, penderfynwyd y bydd y dysgwr yn elwa o gymorth rhyngweithiadau cymdeithasol a hunan-barch. Gall gweithgareddau allgyrsiol gyfrannu at ddatblygu'r sgiliau hyn, ond ceir bylchau sylweddol rhwng lefel darpariaeth y clybiau a'r gweithgareddau a gofnodir gan yr athrawon, a'r nifer gwirioneddol o ddisgyblion. Dengys ymchwil bod 78% o athrawon wedi adrodd bod rhaglenni gwirfoddoli ar gael i feithrin sgiliau bywyd, ond dim ond 8% o ddisgyblion sy'n dweud eu bod yn cymryd rhan (Cullinane, Montacute, 2017). Dengys ymchwil bod bron i ddau o bob pump o bobl ifanc (37%) ddim yn cymryd rhan mewn unrhyw glybiau neu weithgareddau. O ganlyniad, mi fydd angen pwyslais enfawr ar gymryd rhan yn yr ysgol.

Credaf y bydd y dysgwr targed yn elwa o fynychu clwb 'Cyfeillion am Oes'. Mae'r ymyrraeth yn rhan o gyfres o raglenni cyfeillion sy'n anelu at wella sgiliau cydnherth mewn plant a lleihau pryder a gwella iechyd meddwl a lles. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar therapi ymddygiadol gwybyddol a seicoleg gadarnhaol. Ymyriad cyffredinol sy'n seiliedig ar yr ysgol yw 'Cyfeillion am Oes', ac mae'n cynnwys 10 – 12 sesiwn wythnosol o un awr yr un.

Mae'r ymyrraeth yn cael ei gyflwyno ar ffurf grŵp gan athrawon i blant rhwng saith a tair ar ddeg mlwydd oed (EIF, 2017).

Mae'r ymyriad yn defnyddio ymagwedd seiliedig ar chwarae a dysgu drwy brofiad i ddarparu sgiliau ymddygiadol gwybyddol mewn modd sy'n briodol i'w datblygiad. Mae'r sesiynau'n cynnwys cymysgedd o waith grŵp, chwarae rôl, ymarferion llyfr gwaith, gemau a gweithgareddau rhyngweithiol. Cwblheir rhai tasgau gartref gyda theulu'r cyfranogwr er mwyn ymarfer sgiliau newydd a ddysgwyd (EIF, 2017).

Nod y rhaglen yw addysgu sgiliau ymdopi megis deall a rheoli emosiynau er mwyn cynorthwyo plant i ymateb i emosiynau anghyfforddus mewn ffyrdd priodol a defnyddiol. Dengys canlyniadau'r ymyriad, yn tymor byr, mae gan blant gwell ymwybyddiaeth o'u hemosiynau a thechnegau rheoli emosiwn defnyddiol sy'n eu galluogi i ymdopi'n well â sefyllfaoedd sy'n peri straen neu'n anghyfforddus. Yn y tymor hwy, bydd plant yn llai tebygol o ddatblygu anhwylderau pryder (EIF, 2017).

I gloi, deallaf fod diffyg data wedi effeithio ar fy nghanfyddiadau yn fawr ac wedi fy nghyfyngu i gael golwg gyfannol o'r dysgwr. Fodd bynnag, llwyddais i gasglu ychydig o ddata ar y dysgwr er mwyn dod i gasgliad bras iawn. Wrth symud ymlaen, credaf yn gryf y byth y dysgwr yn elwa o gymorth cymdeithasol ac emosiynol er mwyn allu gwneud cynnydd ym mhob maes dysgu. Credaf y bydd y dysgwr targed yn elw'n fawr o ymyriad fel 'Cyfeillion am Oes' gan y bydd yn rhoi cyfleoedd iddi gyfathrebu a chymdeithasu â disgyblion y tu allan i'w grŵp ffrindiau. Yn ychwanegol, bydd yn caniatáu iddi gyfathrebu drwy chwarae a thrwy gymryd rhan mewn sefyllfaoedd bob dydd.

Atodiadau

Atodiad 1



Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

Ynglŷn ag: Aseiniad Myfyrwyr TAR Cynradd: caniatâd a chadarnhad bod gwaith wedi cael ei wneud yn yr ysgol ar gyfer yr aseiniad 'Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion', Haf 2019.

Annwyl fentor dosbarth / uwch fentor ,

Ar gyfer y modwl prifysgol a enwir uchod, gofynnir i hyfforddeion i nodi un dysgwr sydd yn y dosbarth lle maent wedi cael eu lleoli a, dros y cyfnod Profiad Addysgu Proffesiynol, ymchwilio i'w ddysgu yn fanwl. Gallai'r dystiolaeth sydd angen ei chasglu arnynt gynnwys:

- arsylwi;
- gofyn i'r dysgwr nodi mannau/ pethau sy'n ei helpu ef / hi i ddysgu;
- trafod gyda'r disgybl a/ neu'r athro'r hyn sy'n helpu'r disgybl i ddysgu a sut maent yn teimlo am ddysgu;
- casglu samplau o waith a allai ddangos rhywbeth am gynnydd a datblygiad y dysgwr.

Gofynnir iddynt ganolbwyntio ar wybodaeth, agwedd a sgiliau mewn iaith, mathemateg, lles, yn ogystal ag o leiaf dau faes arall o'r cwricwlwm er mwyn cael darlun cyfannol o'r plentyn. Yna, gwnânt awgrymu'r camau nesaf ar gyfer y disgybl a dangos sut caiff y rhain eu cyflawni. Disgwylir i hyfforddeion fod yn annibynnol, pa bryd bynnag mae'n bosibl, wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, ac maent wedi cael canllawiau moesegol i'w dilyn (er ein bod ni'n rhagweld caiff y gwaith uchod ei wneud yn unol ag arfer arferol yr ystafell ddosbarth). Gofynnwyd i'r hyfforddeion i beidio â datgelu enwau'r dysgwr na'r ysgol yn eu haseiniadau. Gofynnir i'r myfyrwyr i:

1. Ofyn am ganiatâd ar gyfer gwneud y gwaith hwn (drwy ymgynghori â'r athro dosbarth a'r dysgwr).
2. Ddarparu cadarnhad bod y gwaith archwilio wedi digwydd.

Felly, byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu cadarnhau drwy lofnodi isod bod y myfyriwr wedi gofyn am ganiatâd a bod y tasgau wedi cael eu cynnal.

ENW'R MYFYRIWR/ MYFYRWRAIG (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

CHLOÉ MARY THOMAS.

ENW'R YSGOL (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

YSGOL GYMRAEG SANTES TUDFUL.

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

CDavis

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (LLOFNODWCH OS GWELWCH YN DDA):

C1

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, yna cysylltwch ag : Arweinydd y Rhaglen
Mathew Jones M.Jones@uwtsd.ac.uk

Diolch yn fawr o flaen llaw

DYLID CYNNWYS COPI WEDI'I LOFNODI YN ATODIAD YR ASEINIAD

Atodiad 2

Dosbarth: Blwyddyn 3		Oed y Dysgwyr: 7/8	Dyddiad: 07/05/2019
Nod y Wers: (yn unol â'r cynllun gwers) - I ddeall beth yw ystyr 'Cynhwysedd'; - I allu darllen y cyfyngau yn gywir ar jwg mesur.		Meini Prawf Llwyddiant: (yn unol â'r cynllun gwers) - Mesur cynhwysedd amrywiaeth o gynhwysyddion i'r 100ml agosaf yn gywir; - Defnyddio unedau mesur yn gywir.	
Enwau'r Dysgwyr (fesul grŵp)	Gradd C/O/G	Camau Nesaf i'r dysgwyr (fesul grŵp neu fesul unigolyn)	Effaith ar Gynllunio Dilynol
1. [REDACTED]		[REDACTED] – Cam ddeall y dasg i ddechrau ond wedi deall ar ôl trafodaeth.	
2. [REDACTED]			
3. [REDACTED]			
4. [REDACTED]			
5. [REDACTED]			
6. [REDACTED]			

Atodiad 3

Cynhwysedd 7/5/19

1. Pa gynnwysydd sydd ar cynhwysedd mwyaf? Potel Mawr. ✓
2. Pa gynnwysydd sydd ar cynhwysedd lleiaf? Potel Mawr bach. ✓



Mesuriadau Cyntaf: Cynhwysedd a Chyfaint

Cyfaint yw maint y gwagle y mae rhywbeth yn ei gymryd. Cynhwysedd yw maint y gwagle sydd y tu mewn i gynhwysydd.

A: Dewch o hyd i boteli neu gartonau sydd yn cynnwys (neu wedi cynnwys) hylif e.e. Potel ddwr. Darganfyddwch y rhif sydd yn dangos cynhwysedd y botel neu garton ac ysgrifennwch hyn yn y tabl isod.

Eitem (e.e. Potel ddwr)	4. Potel Fawr	1. Potel bach	3. Potel Mawr bach	2. Potel Mawr
Cynhwysedd	550 ml	50 ml	455 ml	900 ml


B: Dewch o hyd i gynhwysydd bach a chynhwysydd mawr. Tynnwch lun ohonynt yma.

Cynhwysydd Bach	Cynhwysydd Mawr
 455 ML	

Atodiad 4


Amser

1.



Mae gwrs piano Elin yn dechrau am 3:30 y.p. ac yn gorffen am 3:45 y.p.
Pa mor hir yw gwrs piano Elin? 15 *myrdd* ✓
munud

2.




2:20 y.p.

3:50 y.p.

Gadawodd y trên Caerdydd am 2:20 y.p. a chyrhaeddodd Ferthyr am 3:50 y.p.
Pa mor hir cymerodd y daith? lawr 30 *munud* ✓


3.



Dechreuodd Sara gerdded i'r siop am 12:00 y.p. a chyrhaeddodd y siop am 12:30 y.p.


Faint o amser cymerodd Sara i gerdded i'r siop? 30 *munud* ✓

4.



Mae'r rhaglen teledu yn dechrau am 1:20 y.p. ac yn gorffen am 1:35 y.p.
Pa mor hir yw'r rhaglen? 15 munud ✓

5.



Mae'r sioe ysgol yn dechrau am 12:30 y.p. ac yn gorffen am 1:00 y.p.
Pa mor hir yw'r sioe? 30 munud ✓

6. Newidiwch yr eiliadau isod i mewn i funudau:

60 eiliad - 1 munud ✓
120 eiliad - 2 munud ✓



cerddair briodferch Maer briodferch
i flaen y eglwys, ar briodfab yn
mae hŷn gwybyddu. Wyn gwneud addewidion
fel symbol o bardeib. iŵ gilydd. ✓



Maer gweindog yn gweiddio
dros y briodfab ar briodferch. ✓



ceir dall ~~e~~ niad or
beibl am briodas. ✓

Cyfeiriadau

BERA (2018) *Ethical Guidelines For Educational Research*. Ar gael:

https://www.bera.ac.uk/wp-content/uploads/2018/06/BERA-Ethical-Guidelines-for-Educational-Research_4thEdn_2018.pdf?noredirect=1 (Agorwyd ar: 24ain Mai 2019).

Cullinane, C. A Montacute, R. (2017) *Improving life skills for young people*. Ar gael:

https://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2017/10/Life-Lessons-Report_FINAL.pdf

(Agorwyd ar: 1af Mehefin 2019).

DCSF (2009) *Progress Matters*. Ar gael: [https://www.foundationyears.org.uk/wp-](https://www.foundationyears.org.uk/wp-content/uploads/2012/05/progress-matters.pdf)

[content/uploads/2012/05/progress-matters.pdf](https://www.foundationyears.org.uk/wp-content/uploads/2012/05/progress-matters.pdf) (Agorwyd ar: 24ain Mai 2019).

EarlyInterventionFoundation (2017) *FRIENDS for life*. Ar gael:

<https://guidebook.eif.org.uk/public/files/pdfs/programmes-friends-for-life-health-led.pdf>

(Agorwyd ar: 2ail Mehefin 2019).

Estyn (2016) [REDACTED] Ar gael: [REDACTED]

(Agorwyd ar: 24ain Mai 2019).

Fitch, M. A Semb, G. (1983) *The Ask Model of Peer Tutoring: Theory and Practice*. Ar gael:

<https://pdfs.semanticscholar.org/6978/9e861f1c9fa75ce64615375de5278dd315f4.pdf>

(Agorwyd ar: 29ain Mai 2019).

Nottingham, J. (2013) *Encouraging Learning*. Oxon: Routledge.

Pugh (2001) *Observation and Assessment*. Ar gael:

https://www.sagepub.com/sites/default/files/upm-binaries/9656_022816Ch5.pdf (Agorwyd ar: 26ain Mai 2019).

Rentfrow, J. A De Vries, R. (2016) *The effects of background and personality on earnings*.

Ar gael: <https://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2016/01/Winning-Personality-FINAL-1.pdf> (Agorwyd ar: 1af Mehefin 2019).

Rimmer, J., Good, J. a Harris, E. (2011) *Class participation and shyness: affect and learning to program*. Ar gael: <http://www.ppig.org/sites/default/files/2011-PPIG-23rd-Rimmer.pdf>

(Agorwyd ar: 26ain Mai 2019).